
Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path

@llwybrarfordircymru
llwybrarfordircymru.gov.uk




# Mynydd Mawr i Aberdaron, Pen Llŷn

## Taith gerdded drawiadol o amgylch trwyn Pen Llŷn i eglwys Sant Hywyn, eglwys hanesyddol ar lannau Môr Iwerddon.

*"Mae dechrau'r haf yn amser anhygoel i'r blodau gwyllt ar hyd y darn hwn o'r arfordir; mae clustog Fair, y cor-rosyn, serennyn y môr, y gludlys a llawer mwy yn creu arddangosfa wirioneddol wych."*

**RHYS GWYN ROBERTS, SWYDDOG LLWYBR ARFORDIR CYMRU**

### Dechrau a gorffen:

O Fynydd Mawr i Eglwys Sant Hywyn, Aberdaron.

### Pellter:

Mynydd Mawr i Aberdaron 4.5 milltir neu 7 km un ffordd
**Opsiwn llwybr byrrach:** Porth Meudwy i Aberdaron 1.5 milltir neu 2.5 km un ffordd. Mae maes parcio bach yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ym Mhorth Meudwy.




Eglwys Sant Hywyn, Aberdaron




Pentref Aberdaron

## Ar hyd y ffordd...

Dechreuwch eich taith ar gopa Mynydd Mawr sy'n berchen i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac yn gartref i rai o olygfeydd gorau Pen Llŷn. Edrychwch ar draws y tonnau i weld gwawr emrallt Ynys Enlli, Ynys yr Ugain Mil o Seintiau. Ar ddiwrnod clir, gallwch hyd yn oed weld copaon Mynyddoedd Wicklow yn Iwerddon yr ochr arall i Fôr Iwerddon.

Edrychwch i'r gogledd ac fe welwch arfordir garw Pen Llŷn, yn frith o gopaon bach, ac i'r de tuag at Aberdaron mae traeth Porth Neigwl, sy'n ymestyn dros bum milltir.

O Fynydd Mawr, dilynwch lwybr yr arfordir o amgylch trwyn Pen Llŷn trwy rannau o'r dirwedd arfordirol fwyaf anghysbell a chyffrous sydd gan Ben Llŷn i'w cynnig. Fe welwch lu o gilfachau môr cudd yn llawn adar y môr; gallwch gerdded ar hyd clogwyni serth Parwyd a dringo'r 303 troedfedd neu 92 metr i Ben y Cil i weld golygfeydd eang a syfrdanol o fae Aberdaron.

Ewch ymlaen ar hyd yr arfordir i borthladd pysgota tlws Porth Meudwy (dewis arall gwych fel man cychwyn os yw'n well gennych fynd am daith fyrrach) ac ymlaen heibio Porth Simdde i Aberdaron ac eglwys Sant Hywyn sy'n edrych dros y bae, cyn dilyn eich camau yn ôl i ddechrau'r daith gerdded.

## Man Treftadaeth Gysegredig:

Wedi'i sefydlu yn 516 OC gan y sant yr enwir yr eglwys ar ei ôl, mae eglwys Sant Hywyn yn rhan hanfodol o dirwedd ysbrydol Pen Llŷn gyda chysylltiadau dwfn ag Ynys Enlli sanctaidd (adeiladodd Cadfan, cefnder Hywyn, y fynachlog yno).

Codwyd yr eglwys gerrig sy'n sefyll hyd heddiw, ychydig fetrau o'r lan, yn yr unfed ganrif ar ddeg. Roedd yn fan gorffwys olaf i bererinion ar eu ffordd i Enlli, cyn iddynt deithio cymal olaf peryglus eu taith dros ddyfroedd tymhestlog Swnt Enlli i'r ynys.

Y tu mewn, mae'r eglwys yn eang ac llawn gofod, gyda golau yn adlewyrchu oddi ar y môr i oleuo to pren rhyfeddol o'r unfed ganrif ar bymtheg. Fe welwch hefyd gerrig beddi Henuriaid Rhufeinig a ddaeth â Christnogaeth i'r rhan anghysbell hon o Gymru.

Yn dyddio'n ôl i'r chweched ganrif, mae'n bosib bod y cofebion hynafol hyn yn hŷn na'r fynachlog ar Ynys Enlli. Yn fwy diweddar, Sant Hywyn oedd plwyf olaf y diweddar ysgrifennwr ac offeiriad RS Thomas, un o feirdd mwyaf Cymru yn yr iaith Saesneg.

## Gwybodaeth ddefnyddiol:

Mae yna lefydd parcio ym Mynydd Mawr, Porth Meudwy ac Aberdaron. Mae yna hefyd yr opsiwn o ddefnyddio gwefan Bws Arfordir Llŷn i gael manylion www.bwsarfordirllyn.co.uk. Fe welwch doiledau cyhoeddus, siopau, caffis a thafarndai yn Aberdaron.

Datblygwyd y daith gerdded hon mewn partneriaeth â'r **Ymddiriedolaeth Eglwysi Genedlaethol**. Ewch i'w gwefan **www.explorechurches.org/cymru** i ddarganfod mwy gan gynnwys teithiau a phrofiadau y gellir eu harchebu.